**RHYBUDD o benderfyniadau cyfarfod hybrid y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd 18 Ionawr, 2024**

**Yn Bresennol**: Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams

Cynghorydd Alun Roberts –Aelod Portffolio – Gwasanaethau Oedolion (mewn perthynas ag eitem 4)

Cynghorwyr Glyn Haynes,T Ll Hughes MBE, Robert Ll Jones, Keith Roberts, Dafydd R Thomas (gwahoddwyd i gymryd rhan fel aelodau lleol mewn perthynas ag eitem 4).

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr John Ifan Jones ac Euryn Morris.
Dirprwy Brif Weithredwr

**Hefyd yn Bresennol**: Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos Medi
Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Cyllid
Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer
Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg
Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd

(10.00 o'r gloch yb - 11.30 o'r gloch yb)

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu i'r Cynghorydd Non Dafydd ddatgan diddordeb personol yn eitem 4 – Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi).<br><br>Bu i'r Cynghorydd Jeff Evans ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn eitem 4 – Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi). |

| RHIF YR EITEM AR PWNC | **3 Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:<br><br>• Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd 13 Tachwedd, 2023. |

| | |
|---|---|
| | • Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Tachwedd, 2023. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **4 Moderneiddio Cyfleon Dydd : Anableddau Dysgu (ardal Caergybi)** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cefnogi'r cynigion i foderneiddio a thrawsnewid cyfleon dydd Anableddau Dysgu yn ardal Caergybi;**<br><br>• **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi'r argymhelliad:**<br><br>**Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu gweithgaredd dydd a'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan Adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **5 Adroddiad Cynnydd Ch2 : 2023/2024 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** |
| PENDERFYNIAD | **PEDNERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 2: 2023/2024.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM AR PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor - 2023/2024** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24 yn amodol fod yr eitem ynghylch Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu ar gyfer cyfarfod Chwefror 2024 yn cael ei ail-drefnu i** |

| | |
|---|---|
| | **ddyddiad y cytunir arno.**<br>• **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.** |